Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 1256 (Cy. 210)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae paragraff 1 o Atodlen 4D i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn galluogi i swyddogaethau penodedig Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â chais (neu gais arfaethedig) am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol gael eu cyflawni gan berson a benodir i wneud hynny ar eu rhan ("person penodedig").

Mae rheoliad 11 o Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 yn rhagnodi swyddogaethau penodedig i'w cyflawni gan berson penodedig.

Mae rheoliad 11A o'r un Rheoliadau yn rhagnodi swyddogaethau penodedig ychwanegol i'w cyflawni gan berson penodedig mewn cysylltiad â phenderfynu ceisiadau ar gyfer gosod llinellau trydan uwchben.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 11A fel bod y swyddogaethau ychwanegol a ragnodir yn y rheoliad hwnnw hefyd yn cael eu harfer mewn perthynas â phenderfynu ceisiadau ar gyfer adeiladu, addasu neu estyn gorsafoedd cynhyrchu trydan, pan ddisgwylir i'r gallu cynhyrchu gosodedig, neu'r cynnydd yn y gallu cynhyrchu gosodedig, fod yn is na 50 megawat.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol ac yn cynnwys darpariaeth drosiannol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 1256 (Cy. 210)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Tachwedd 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *2 Rhagfyr 2024* |
| *Yn dod i rym* | *6 Ionawr 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraff 1 o Atodlen 4D i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), ac adran 333(2A) a (2B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024 a deuant i rym ar 6 Ionawr 2025.

**Diwygiadau i Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 1990 p. 8. Mewnosodwyd adran 333(2A) gan baragraff 14(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) a mewnosodwyd adran 333(2B) gan adran 130(1)(a) o Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 ("Deddf 2023"). Mewnosodwyd Atodlen 4D gan baragraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) a diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 4D gan adran 130(3)(i) o Ddeddf 2023.

(**2**) O.S. 2016/56 (Cy. 26), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/288 (Cy. 67). Gwnaed diwygiadau eraill, ond nid ydynt yn berthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Yn rheoliad 11A—

(a) daw'r ddarpariaeth bresennol yn baragraff (1);

(b) yn y paragraff hwnnw, yn lle'r geiriau o "rheoliad (3)(1)(ab)" hyd at "2016" rhodder "paragraff (2)—";

(c) ar ôl y paragraff hwnnw mewnosoder—

"(2) Mae datblygiad o fewn y paragraff hwn os yw—

(a) o fewn rheoliad 3(1)(a) neu (aa) o Reoliadau 2016 ac—

(i) yn achos adeiladu naill ai gorsaf gynhyrchu neu orsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir, disgwylir i'r orsaf gynhyrchu neu'r orsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir, pan gaiff ei hadeiladu, fod â gallu cynhyrchu gosodedig o lai na 50 megawat, neu

(ii) yn achos estyn neu addasu naill ai gorsaf gynhyrchu neu orsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir, disgwylir i'r estyniad neu'r addasiad gynyddu'r gallu cynhyrchu gosodedig o lai na 50 megawat; neu

(b) o fewn rheoliad 3(1)(ab) (gosod llinell drydan uwchben y ddaear) o Reoliadau 2016.

(3) Yn y rheoliad hwn—

mae i "gorsaf gynhyrchu" ("*generating station*"), "gallu cynhyrchu gosodedig" ("*installed generating capacity*") a "gorsaf cynhyrchu trydan o ynni'r gwynt ar y tir" ("*onshore wind generating station*") yr ystyron a roddir yn rheoliad 4(3) o Reoliadau 2016;

ystyr "Rheoliadau 2016" ("*the 2016 Regulations*") yw Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016.";

(d) yn y pennawd, yn lle "llinellau trydan" rhodder "penderfyniad gan berson penodedig".

(3) Ym mhennawd rheoliad 18A, yn lle "llinellau trydan" rhodder "penderfyniad gan berson penodedig".

(4) Yn rheoliad 40(1)(b), yn lle "rheoliad 11A(a)" rhodder "rheoliad 11A(1)(a)".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(5) Ym mharagraff 1(3A) o Atodlen 8, yn lle "llinellau trydan" rhodder "penderfyniad gan berson penodedig".

**Darpariaeth drosiannol**

**3.** Nid yw'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau pan fo Gweinidogion Cymru wedi cael adroddiad o dan reoliad 18 neu 28 o Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016, gan gynnwys o dan reoliad 28 fel y'i cymhwysir gan reoliad 30(3) o'r Rheoliadau hynny, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

*Rebecca Evans*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
28 Tachwedd 2024